Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio â chwe Awdurdod Lleol y Gogledd er mwyn ystyried ffyrdd o weithio gyda theuluoedd / gofalwyr plant a phobl ifanc o dan y ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Er mwyn ein helpu i gael pethau'n iawn, hoffem glywed am eich profiad chi ac a oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer gwneud i bethau weithio'n well.

A yw eich plentyn chi yn derbyn gwasanaethau iechyd? Er enghraifft, Nyrsio, Ymwelwyr Iechyd, Therapyddion Galwedigaethol, Pediatregwyr Cymunedol, Therapyddion Iaith a Lleferydd ac yn y blaen?

Os felly, tybed a gawn ni ofyn eich barn am beth sydd/sydd ddim yn gweithio'n dda i chi o ran eich gallu i ymwneud â'r gwasanaethau?

Yn arbennig, hoffem wybod: petai arnoch chi angen gwybodaeth neu petaech ychydig yn bryderus, beth fyddai'n eich helpu?

Rydym yn cynnal sesiwn sgwrs a phaned rhithiol gyda STAND Gogledd Cymru CBC

Dydd Mercher 30 Mehefin 11.30 am – 1.00 pm

Byddwn yn falch iawn os gallwch ymuno â ni

I archebu lle a chael y ddolen, e-bostiwch yvonne@standnw.org

Neu ffoniwch y rhif 07826108273